Swyddfa Gartref

# Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar weithredu rheoliad yr Undeb Ewropeaidd ar Farchnata a Defnyddio Rhagsylweddion Ffrwydron yn y Deyrnas Unedig

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad a chrynodeb**
a. Cefndir
b. Y broses ymgynghori
c. Proffil o'r ymatebwyr
d. Penderfyniadau yn deillio o'r ymgynghoriad
e. Camau nesaf
**2. Y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad**
a. Trosolwg
b. Materion yn ôl math
**Atodiad A - Crynodeb o'r ymatebion**
**Atodiad B – Rhestr o'r Sefydliadau a Dargedwyd**

## 1. Cyflwyniad a chrynodeb

### a. Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus y Swyddfa Gartref a lansiwyd ar 21 Tachwedd 2013 ar Weithredu Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd ar Farchnata a Defnyddio Rhagsylweddion Ffrwydron.

Roedd yr ymgynghoriad a'r asesiad effaith yn ceisio barn grwpiau y byddai'n effeithio arnynt am y dewisiadau o ran gweithredu ac yn anelu at gryfhau tystiolaeth am effaith pob dewis ar y prif grwpiau y byddai'n effeithio arnynt.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chynigion y Llywodraeth yng ngoleuni'r ymgynghoriad. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr ag Ymateb y Llywodraeth i Ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar y Newidiadau Arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rheolau Gwenwynau 1982 a Rhestr Gwenwynau 1982 a Diwygiadau Cysylltiedig.

### b. Y broses ymgynghori

Roedd yr ymgynghoriad a'r asesiad effaith cyfnod ymgynghori a gyhoeddwyd yn ceisio barn ar effaith y dewisiadau polisi ar aelodau o'r cyhoedd, cyflenwyr, defnyddwyr busnes, gweithgynhyrchwyr, dosbarthwyr a ffurfwyr. Roedd y dogfennau yn rhoi manylion am y ffordd y gallai pob un o'r dewisiadau arfaethedig weithio yn ymarferol, ac roedd yn rhoi manylion y costau posibl a'r beichiau gweinyddol.

Cychwynnodd yr ymgynghoriad ar 21 Tachwedd 2013 a daeth i ben ar 9 Ionawr 2014.

Hysbyswyd y cymdeithasau, busnesau a grwpiau diddordebau sy'n ymwneud â defnydd yn y cartref, defnydd busnes, gwerthu, gweithgynhyrchu, dosbarthu a ffurfio cemegolion sy'n dod dan gwmpas y rheoliad rhagsylweddion ffrwydron am yr ymgynghoriad. Fe wnaethom ofalu ein bod yn ymgynghori â busnesau bach a chanolig, a chyflenwyr unigol y cemegolion y cyfyngir arnynt. Cynhaliwyd swm sylweddol o ymchwil ar ffurf cyfweliadau un i un cyn yr ymarfer ymgynghori ac wedi hynny.

Mae rhestr o'r sefydliadau a dargedwyd ynghlwm yn atodiad B.

Defnyddiwyd cyfuniad o gwestiynau caeedig ac agored i gynorthwyo i ddadansoddi'r ymatebion.

Hoffai'r Swyddfa Gartref ddiolch i bawb oedd â diddordeb am roi'r amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym wedi ystyried eich barn yn ofalus iawn.

## c. Proffil o'r ymatebwyr

Derbyniodd y Swyddfa Gartref gyfanswm o 45 o ymatebion. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys:

- defnyddwyr yn y cartref (42 %),
- defnyddwyr busnes, cyfanwerthwyr a dosbarthwyr (a'u cymdeithasau (46%),
- adwerthwyr (a'u cymdeithasau) (8%), a
- chymdeithasau proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd gyda diddordeb llai penodol (4%).

Yn Atodiad B ceir manylion yr ymatebwyr o gymdeithasau a sefydliadau proffesiynol a diddordebau.

## d. Penderfyniadau yn deillio o'r ymgynghoriad

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac wedi penderfynu symud ymlaen â Dewis 3: gadael i'r cyhoedd brynu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r trothwyon crynodiad os oes ganddynt drwydded ddilys.

Rydym wedi ystyried y nifer o faterion pwysig a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a byddwn yn defnyddio'r manylion a roddwyd gan ymatebwyr i ddatblygu dull ymarferol a syml o weithredu'r rheoliad.

## e. Camau nesaf

Mae angen i'r Swyddfa Gartref weithredu'r rheoliad erbyn dyddiad cau trawsosod yr UE ar 2 Medi 2014. Er mwyn paratoi at weithredu, bydd y Swyddfa Gartref yn:

- Drafftio'r ddeddfwriaeth eilaidd a'r cyfarwyddyd sy'n ofynnol i weithredu'r polisi a sicrhau bod y rhain ar gael i San Steffan
- Paratoi cyfarwyddyd ar-lein a deunyddiau hyfforddi i fusnesau ac yn gweithio gyda chyrff o'r diwydiant i rannu'r polisi
- Paratoi cyfarwyddyd ar-lein i ddefnyddwyr cartref ar pryd a sut i wneud cais am drwydded
- Sefydlu awdurdod trwyddedu a phroses gymesur i lunio penderfyniad ar ymgeiswyr addas
- Paratoi hyfforddiant a chyfarwyddyd i'r Heddlu ar faterion gorfodi fel pryniannau prawf i'w cynnal ar hap neu ar sail adroddiad am ddiffyg cydymffurfio
- Datblygu cynllun cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion newydd ymhlith y grwpiau y mae'n effeithio arnynt.

# 2. Y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

## a. Trosolwg

Ymatebodd amrywiaeth o gyrff ac unigolion i'r ymgynghoriad gan gyflwyno ymatebion yn ysgrifenedig ac ar-lein. Roedd y cyrff ymbarél a ymatebodd yn cynrychioli barn yr adwerthwyr, arbenigwyr academaidd, cyflenwyr busnes i fusnes a defnyddwyr oherwydd diddordebau. Mae'r canlynol yn grynodeb byr o'r prif faterion a godwyd gan sefydliadau. Gwelir manylion am yr ymatebion i'r cwestiynau a ddewiswyd yn yr arolwg ymgynghorol yn Atodiad A.

### Adwerthwyr

Y pryder a fynegwyd yn fwyaf cyffredin gan adwerthwyr oedd natur oddrychol rhoi adroddiad am drafodion amheus. Roedd yr ymatebwyr yn galw am gyngor clir a syml gan y llywodraeth ar yr hyn allai fod yn drafodyn amheus a'r camau i'w cymryd os bydd un yn cael ei ganfod.

### Cyflenwyr busnes i fusnes

Y pryder mwyaf cyffredin a fynegwyd gan adwerthwyr busnes i fusnes oedd pwy fyddai â chyfrifoldeb am y gofynion labelu am gynhyrchion sy'n cynnwys cemegolion Atodiad 1 dros y crynodiad.

### Defnyddwyr yn y cartref

Y pryder a fynegwyd yn fwyaf cyffredin gan ddefnyddwyr cartref oedd cost trwydded. Nododd rhai ymatebwyr, petai cost trwydded yn rhy uchel y gallai wahardd y gweithgareddau yn arbennig pan na fydd ond symiau bychain iawn o'r cemegolion y mae cyfyngiad arnynt yn cael eu defnyddio.

Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn gwybod am ddewis ar wahân i'r cemegolion â chyfyngiad, felly, petai'r cemegolion yn cael eu gwahardd rhag eu gwerthu i'r cyhoedd yn gyffredinol, ni fyddent yn medru parhau â'u gweithgareddau.

## b. Materion yn ôl math

### Materion economaidd/gweinyddol

| Mater | Ymateb y llywodraeth |
|---|---|
| <u>Trwyddedu</u> – mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu mai trwyddedu oedd y dewis gorau ymhlith adwerthwyr, busnesau a defnyddwyr. Teimlid bod trwyddedu yn cadw dewis i'r defnyddiwr ac yn targedu'r defnyddiwr yn y pen draw yn hytrach na'r adwerthwr.<br><br>Nododd yr ymatebwyr, yn eu barn hwy, mai Dewis 3 fyddai'n bodloni'r amcanion polisi i:<br>• Atal terfysgwyr rhag defnyddio rhagsylweddion ffrwydron mewn ymosodiadau;<br>• Cynnig peirianwaith i roi rhybudd i awdurdodau o weithgaredd terfysgol; a<br>• Chadw'r baich ar ddiwydiant cyn lleied â phosibl.<br><br>Dim ond swm bychan iawn o'r sylweddau y mae cyfyngiad arnynt y mae rhai defnyddwyr cartref ei angen, felly, fe wnaeth ymatebwyr y | Mae'r Llywodraeth yn dal o'r farn y bydd trwyddedu yn gadael i ddefnyddwyr cartref cyfreithlon brynu cemegolion Atodiad 1 a pharhau eu gweithgareddau pan nad oes cemegolion eraill addas yn eu lle. Mae'n cadw'r baich ar adwerthwyr cyn lleied â phosibl. Mae hefyd yn cynnig cyfle i wirio addasrwydd yr unigolyn a'r defnydd a fwriedir ar y cemegolion cyn eu prynu, eu meddiannu a'u defnyddio.<br><br>Dywed canllawiau'r Trysorlys y dylai'r Llywodraeth geisio adfer yr holl gostau ar drefniadau trwyddedu. Mae'r Swyddfa Gartref yn ymroddedig i weithredu system effeithlon a chost effeithiol, felly rydym yn archwilio'r dewisiadau i ddefnyddio systemau a |

| | |
|---|---|
| sylw, os bydd cost trwydded yn rhy uchel y byddai'n atal eu gweithgareddau. Mynegwyd pryder am y nifer isel, o bosibl, o geisiadau am drwydded a chost uchel y trwyddedau o ganlyniad i hynny. | gweithdrefnau gweinyddol sy'n bodoli. Rydym yn gweithio i sicrhau bod cost cael trwydded ar gyfer defnyddwyr cartref yn rhesymol. |
| Nododd rhai ymatebwyr y byddai trwydded yn caniatáu iddynt barhau eu gweithgareddau.<br><br>Teimlai rhai busnesau a ymatebodd i'r cwestiwn y byddai'r angen i ymgeisio am drwydded yn atal defnyddwyr cartref rhag prynu eu cynnyrch petai yn rhy gymhleth neu'n ddrud. Ond, petai'r system yn syml i'w defnyddio na fyddai defnyddwyr cyson yn cael eu hatal.<br><br>Gofynnodd yr ymatebwyr am gyfarwyddyd clir ar sut i ymgeisio am drwydded a deunyddiau gwybodaeth clir.<br><br>Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau a ymatebodd yn meddwl na fyddai'r angen i wirio trwyddedau yn eu hatal rhag gwerthu i'r cyhoedd yn gyffredinol. Roedd rhai cyfanwerthwyr yn meddwl y gallai gael effaith negyddol ar eu cwsmeriaid sy'n gwerthu i'r cyhoedd. Roedd un ymatebwr yn meddwl y byddai trwydded yn ychwanegu sicrwydd bod gan y prynwr reswm dilys dros brynu'r cynnyrch y mae cyfyngiad ar ei werthiant.<br><br>Cynigiodd un gymdeithas hobïau ddefnyddio cynlluniau trwyddedu sy'n bodoli fel sail ar y drefn rhagsylweddion ffrwydron i greu system effeithlon. | Gall ymgeiswyr wneud cais am drwydded aml-ddefnydd ac aml-sylwedd.<br><br>Mae'r Swyddfa Gartref yn datblygu gwasanaeth ymgeisio a thalu ar-lein ac mae'n bwriadu sicrhau bod cyfarwyddyd clir ar gael i bawb y mae'r rheoliad yn effeithio arno. Bydd hyn yn cynnwys llinellau i fusnesau eu defnyddio wrth roi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau rheoliadol.<br><br>Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio rhoi ffurflen ar-lein lle gall yr adwerthwr ddewis cofnodi cyfeirnod y drwydded a manylion adnabod eraill y deiliad e.e. dyddiad geni i wirio dilysrwydd y drwydded mewn cymhariaeth â chronfeydd data'r Swyddfa Gartref. Er effeithlonrwydd, bydd un gronfa ddata ar gyfer trwyddedau rhagsylweddion ffrwydron a gwenwynau.<br><br>Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio manteisio ar y cynlluniau trwyddedu sy'n bodoli ar sail gofynion addasrwydd tebyg pan fydd hynny'n bosibl. |
| <u>Cofrestru</u> – Awgrymodd yr ymgynghoriad hefyd bod cyfuniad o gofrestru a thrwyddedu yn ddewis oedd yn cael ei gefnogi. Roedd rhai busnesau'n meddwl y gallai manylion cofrestru gael eu casglu yn rhwydd gan ddefnyddio'r systemau sy'n bodoli. Awgrymodd un ymatebydd system gofrestru ar-lein syml i ganiatáu llenwi ffurflenni yn gyflym am ddata gwerthiannau. | Nid cofrestru yw'r dewis gorau gan y Llywodraeth. Nid yw'n cynnig y cyfle i asesu addasrwydd yr unigolyn, mae'n rhoi baich y gwiriadau ar yr adwerthwr, ac felly, ni fyddai'n cyflawni amcanion y polisi yn llawn:<br>• Atal terfysgwyr rhag defnyddio rhagsylweddion ffrwydron mewn ymosodiadau;<br>• Cynnig peirianwaith i roi rhybudd i awdurdodau o weithgaredd terfysgol; a<br>• Chadw'r baich ar ddiwydiant cyn lleied â phosibl. |

| | |
|---|---|
| Ond, teimlai llawer o ymatebwyr y byddai system haenog, gyda mwy nag un cam rheoli, yn rhy gymhleth a chostus i adwerthwyr ei gweithredu ac i'r cyhoedd ei deall. | |
| Gwahardd – Ychydig iawn o gefnogaeth oedd i'r dewis i wahardd y cemegolion Atodiad 1 sy'n rhagsylweddion. Rhoddodd rhai ymatebwyr sylw y byddai gwaharddiad yn cael canlyniadau trychinebus ar eu diddordebau ac effeithiau niweidiol i ddiwydiant gan nad oes dewisiadau eraill ar gael.<br><br>Mae rhai cyflenwyr yn gwerthu ystod fechan iawn o ddeunyddiau, a fyddai'n golygu y byddai gwahardd gwerthu i'r cyhoedd yn cael effaith sylweddol ar eu cwmni.<br><br>Roedd cynrychiolydd o gymdeithas Fferyllol yn meddwl y byddai gwahardd yn gorymateb i raddfa'r broblem. | Gwahardd fyddai'n cael mwyaf o effaith ar ddefnyddwyr cartref cyfreithlon cemegolion Atodiad 1 ac ar fusnesau. Felly, nid hwn yw'r dewis gorau gan y Llywodraeth. |
| Cysoni â rheoliadau gwenwynau – nododd 42% o'r ymatebwyr busnes i'r cwestiwn eu bod hefyd yn gwerthu gwenwynau Rhan 1. Nododd rhai ymatebwyr y byddai'n syml a gwell gweithredu un drefn ar gyfer rhagsylweddion ffrwydron a gwenwynau. | Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio gweithredu'r un drefn ar gyfer rheoli gwerthu gwenwynau. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn Ymateb y Llywodraeth i Ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar y Newidiadau Arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rhestr Gwenwynau 1982 a Rheolau Gwenwynau 1982 a Diwygiadau Cysylltiedig. |

## Materion proses/rheoleiddiol

| Mater | Ymateb y llywodraeth |
|---|---|
| Labelu – Tanlinellodd yr ymatebwyr yr angen am gyfarwyddyd clir ar labelu.<br>Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, cyn belled â bod digon o rybudd i'r stoc bresennol gael eu defnyddio, y gellid diwygio'r labeli yn rhwydd i gynnwys llinell ychwanegol o destun ar ychydig neu ddim cost ychwanegol. Gallai'r amser i ddefnyddio'r stoc bresennol gymryd hyd at un i ddwy flynedd. | Bydd y Comisiwn Ewropeaidd a'r Pwyllgor Sefydlog arbenigol ar Ragsylweddion Ffrwydron yn cyhoeddi cyfarwyddyd y cytunwyd arno ar ofynion labelu yn fuan. Rhaid i unrhyw gynnyrch gyda sylwedd Atodiad 1 dros y crynodiad fydd yn cael ei gynnig ar werth i'r cyhoedd gael ei labelu gyda:<br>"Caffael, meddiannu neu ddefnydd gan y cyhoedd yn gyffredinol yn cael ei gyfyngu."<br><br>Ni fydd y labelu yn berthnasol i gynnyrch na fydd byth yn cael eu cyflenwi i'r cyhoedd (h.y. cyflenwad i ddefnyddwyr busnes). Nid yw'n berthnasol chwaith i gynnyrch sy'n cynnwys cemegolion Atodiad 1 dan y crynodiad na chynnyrch yn cynnwys cemegolion Atodiad 2. |

| | |
|---|---|
| | Ni all un rhan unigol o'r gadwyn gyflenwi wybod yn rhwydd a yw cynnyrch yn cynnwys cemegolyn a gyfyngir dros y crynodiad a'i fod wedi ei fwriadu i'w gynnig ar werth i'r cyhoedd, mae'r cyfarwyddyd yn awgrymu dull cydweithredol rhwng y cyflenwr a'r adwerthwr. Ond, mae Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd yn nodi y bydd gweithredwr economaidd sy'n bwriadu gwneud cynnyrch cyfyngedig ar gael i'r cyhoedd yn dilysu neu yn gosod label. Felly, gan y gwerthwr terfynol y mae'r cyfrifoldeb.<br><br>Cyn gynted ag y bydd cyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei gyhoeddi, bydd y Swyddfa Gartref yn rhannu'r cyngor i'r holl bartïon y gall effeithio arnynt i roi cymaint o rybudd ag sy'n bosibl.<br><br>Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau wrth y Swyddfa Gartref nad oes cyfnod trosiannol ar gyfer y gofyn i labelu stoc ar silffoedd pan ddaw'r Rheoliad i rym. |
| <u>Dynodi trafodion amheus</u> – cytunodd cyflenwyr arbenigol a chyfanwerthwyr bod y cyfarwyddyd a gyflwynwyd yn hawdd ei ddeall ac yn ymarferol i'w weithredu. Nododd nifer ohonynt fod y cyngor yn gyson â threfniadau eraill sydd eisoes yn eu lle.<br><br>Ond, teimlai adwerthwyr llai arbenigol i'r cyhoedd fel archfarchnadoedd bod y cyfarwyddyd yn oddrychol ac fe wnaethant fynegi pryder am werthiannau heblaw rhai wyneb yn wyneb, gwerthiannau symiau mawr. Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai rhoi adroddiad ar drafodion amheus yn eu hatal rhag gwerthu'r cynhyrchion dan sylw.<br>Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o gyfarwyddyd ar weithredu yn ymarferol.<br><br>Roedd rhai ymatebwyr yn cynrychioli adwerthwyr mawr yn bryderus na fyddai rhai o'r dangosyddion trafodion amheus yn cydymffurfio â chyfraith Gwahaniaethu trwy dargedu annheg ar rai cwsmeriaid. | Mae'r Swyddfa Gartref wedi cydnabod y lefelau gwahanol o arbenigedd ar hyd cadwyni cyflenwi'r cynhyrchion dan sylw a'r angen i deilwrio'r cyngor yn ôl y math o gwmni. Bydd y Llywodraeth yn ymwneud rhagor â chynrychiolwyr y byd adwerthu i sicrhau bod cyfarwyddyd a deunyddiau hyfforddi clir, mewn iaith glir, ymarferol a pherthnasol ar gael i'r busnesau y bydd hyn yn effeithio arnynt. Byddwn hefyd yn ystyried gweithio gyda chymdeithasau proffesiynol a masnach perthnasol i ddatblygu codau ymddygiad i'r aelodau.<br><br>Bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi cyfarwyddyd ar weithredu'r rheoliad yn fuan. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn bwriadu cyhoeddi ei chyfarwyddyd ei hun i adwerthwyr, gweithredwyr eraill yn y gadwyn gyflenwi, ymgeiswyr am drwydded, cyrff gorfodi a gweinyddu.<br><br>Bydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb. Bydd y cyngor a gyhoeddir yng nghyfarwyddyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei wirio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chyfreithiau gwahaniaethu. |
| <u>Gweithdrefnau rhoi adroddiad am drafodion amheus</u> – Gofynnodd rhai adwerthwyr am | Yn ogystal â chyfarwyddyd y Comisiwn Ewropeaidd, bydd Llywodraeth y Deyrnas |

| | |
|---|---|
| ragor o gyfarwyddyd ar sut i ymateb i drafodion amheus a rhoi adroddiad arnynt mewn ffordd na fydd yn rhy feichus ac yn ddiogel. | Unedig yn rhoi cyfarwyddyd clir ar y system adrodd yn genedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys un rhif cyswllt a thempled yn dynodi'r wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i'r awdurdodau. |
| <u>Gwirio trwyddedau</u> – Gofynnodd rhai busnesau am gyfleuster ar-lein i wirio dilysrwydd trwyddedau.<br><br>Codwyd yr angen am gyfarwyddyd clir a hawdd gan y Llywodraeth yn aml. | Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio rhoi ffurflen ar-lein lle gall yr adwerthwr ddewis cofnodi cyfeirnod y drwydded a manylion adnabod eraill y deiliad e.e. dyddiad geni i wirio dilysrwydd y drwydded mewn cymhariaeth â chronfeydd data'r Swyddfa Gartref.<br><br>Yn ogystal â chyfarwyddyd y Comisiwn Ewropeaidd, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi cyfarwyddyd clir ar y system genedlaethol.<br><br>Ystyriodd yr asesiad effaith gostau cofrestru trafodion trwyddedig yn ddyddiol. Mae'r Swyddfa Gartref yn awr yn meddwl y byddai'n fwy cymesur i'r adwerthwyr gofnodi manylion y trafodyn ar gefn y drwydded a rhoi adroddiad am unrhyw weithgaredd amheus yn ymwneud â gwerthiannau. |
| <u>Gwerthiannau rhyngrwyd</u> – dywedodd rhai ymatebwyr na fyddai ychwanegu blwch testun syml at ffurflenni ar-lein ar gyfer manylion trwydded yn rhy feichus, ond byddai hynny'n dibynnu ar sut mae'r wefan yn cael ei rhedeg.<br><br>Teimlai rhai ymatebwyr mai dim ond wyneb yn wyneb y dylai gwerthiannau cemegolion a gyfyngir ddigwydd.<br><br>Nododd yr ymatebwyr y byddai gofyn i yrwyr dosbarthu wirio dogfennau yn tynnu costau gan y byddai angen hyfforddi'r gyrwyr ac y byddai'r gwiriadau yn cymryd mwy o amser. Codwyd y mater o'r posibilrwydd o golli busnes hefyd. | Bydd darparu system wirio trwyddedau ar-lein yn cynorthwyo i ddiogelu gwerthiannau rhyngrwyd.<br><br>Mae'r Llywodraeth yn teimlo, cyn belled â bod gwiriadau a chamau diogelu addas yn weithredol, y dylai gwerthiannau ar-lein barhau.<br><br>Mae gwirio trwyddedau a hunaniaeth yn rhan angenrheidiol o'r camau diogelu a nodir uchod. |
| <u>Prawf o statws busnes</u> – Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddent yn gallu rhoi prawf o statws TAW a rhif cofrestru cwmni. Fe wnaeth un ymatebwr busnes y sylw fod ganddynt rif cwmni ond nad oeddent wedi cofrestru ar gyfer TAW. | Bydd awgrymiadau eraill ar gyfer profi angen busnes parhaus am y cemegolion a gyfyngir a chemegolion Atodiad 1 yn uwch na'r crynodiad yn y cyfarwyddyd i werthwyr. |

## Materion gweithredu/hyfforddi

| Mater | Ymateb y llywodraeth |
|---|---|
| Hyfforddiant – Gofynnodd rhai ymatebwyr am gefnogaeth i hyfforddi staff. Cynigiodd rhai o'r cymdeithasau diwydiannol a phroffesiynol roi hyfforddiant. | Mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu cefnogi hyfforddiant i staff. Bydd cynghorwyr diogelwch yr Heddlu Lleol yn gwahodd cynrychiolwyr i gyfarfodydd lleol i godi ymwybyddiaeth am reoleiddio.<br>Bydd deunyddiau gwybodaeth yn cael eu darparu.<br>Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn cydweithio gyda llywodraethau Ewropeaidd eraill i ddatblygu offeryn hyfforddi ar-lein i adwerthwyr. |
| Amser ymgyfarwyddo – roedd yr amser a awgrymir yn yr asesiad effaith i staff gael ymgyfarwyddo yn iawn yn fras yn ôl yr ymatebwyr oedd yn cynrychioli sefydliadau cyflenwi arbenigol a fferyllfeydd. Roedd rhai yn meddwl y byddai amser ychydig hwy o 1.5-2 awr yn fwy addas i roi amser i ddarllen a chodi cwestiynau.<br><br>Teimlai adwerthwyr mawr fod yr amser angenrheidiol i ymgyfarwyddo yn rhy fyr ac y byddai'n dibynnu ar rôl yr aelod o staff, y math o fusnes a'r nifer o gynhyrchion y byddai'r rheoliad yn effeithio arnynt. Codwyd materion am drosiant staff, staff rhan-amser a dros dro hefyd. | Bydd yr asesiad effaith cam terfynol yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r wybodaeth a dderbyniwyd trwy'r ymgynghoriad.<br><br>Byddwn yn gweithio gydag adwerthwyr i ddatblygu atebion ymarferol i sicrhau bod camau diogelu addas yn eu lle sy'n ystyried y materion a godwyd, er enghraifft, trwy gadw'r nifer o staff sydd angen hyfforddiant cyn lleied â phosibl. |
| Dynodi'r cynhyrchion yr effeithir arnynt - Gofynnodd rhai ymatebwyr o adwerthwyr mawr am fwy o eglurder am ba gynhyrchion sy'n creu bygythiad. Ond roeddent yn cefnogi'r angen am gamau rheoli. Mynegodd rhai ymatebwyr o'r byd adwerthu bryder am raddfa'r cynnyrch yr effeithir arnynt, y baich o ddynodi'r cynhyrchion yma a'r newidiadau cyson yn fformiwla cynhyrchion.<br>Roedd cyflenwyr arbenigol, ffurfwyr, fferyllwyr a chyfanwerthwyr (mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn) yn meddwl bod yr amser a amcangyfrifwyd yn iawn yn fras ar gyfer eu busnesau. | Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda chynrychiolwyr masnach i'w cynorthwyo i ddynodi'r cynhyrchion sy'n dod dan gwmpas y rheoliad. |

## Materion eraill

| Mater | Ymateb y llywodraeth |
|---|---|
| Gwerthiannau busnes i fusnes – mynegodd rhai ymatebwyr bryder bod gwerthiannau busnes i fusnes tu hwnt i gwmpas y rheoliad, | Mae Gwerthiannau busnes i fusnes yn dod dan gwmpas y gofynion rhoi adroddiad am drafodion amheus. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn adolygu cwmpas y rheoliad yn 2017, yn benodol o ran a ddylai gwerthiannau busnes i fusnes gael eu cynnwys.<br><br>Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â gwaith parhaus gan y Swyddfa Gartref a'i phartneriaid i leihau mynediad at sylweddau peryglus ar hyd y gadwyn gyflenwi gyfan. Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr y diwydiant a chymdeithasau masnach i wella diogelwch y gadwyn gyflenwi ar gyfer sylweddau sy'n peri pryder. Cefnogir cynlluniau hunan reoleiddio ac mae cynlluniau i weithio gyda chynrychiolwyr masnach ar godau ymddygiad newydd yn eu lle. Mae'r rheoliad hwn yn rhoi'r grym i'r Llywodraeth roi mandad i adroddiadau am drafodion busnes i fusnes amheus yn ymwneud â chemegolion Atodiad 1 a 2 am y tro cyntaf. |

# Atodiad A - Crynodeb o'r ymatebion

## Adran 2: cwestiynau i ddefnyddwyr yn y cartref ar sylweddau atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad) yn unig

Pa gemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r crynodiad ydych chi'n eu defnyddio? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | | | Canran yr Ymateb | Cyfanswm yr Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Hydrogen perocsid (uwchlaw 12% w/w) | | 21.05% | 4 |
| 2 | Nitromethan (uwchlaw 30% w/w) | | 26.32% | 5 |
| 3 | Asid nitrig (uwchlaw 3% w/w) | | 26.32% | 5 |
| 4 | Potasiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | | 57.89% | 11 |
| 5 | Potasiwm perclorad (uwchlaw 40% w/w) | | 63.16% | 12 |
| 6 | Sodiwm clorad (uwchlaw 40% w/w) | | 5.26% | 1 |
| 7 | Sodiwm perclorad (uwchlaw 40% w/w) | | 5.26% | 1 |
| | | | wedi ateb | 19 |
| | | | wedi osgoi | 26 |

A fyddech chi'n parhau i brynu'r cemegolion Atodiad 1 petai angen trwydded?

| | | | Canran yr Ymateb | Cyfanswm yr Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Byddwn | | 77.78% | 7 |
| 2 | Na | | 11.11% | 1 |
| 3 | Ddim yn gwybod | | 11.11% | 1 |
| (atebion nad oedd yn berthnasol wedi eu tynnu) | | | wedi ateb | 9 |
| | | | wedi osgoi | 25 |

Beth yw'r uchafswm y byddech yn ei dalu cyn y byddech yn cael eich rhwystro rhag ymgeisio?

| | | | Canran yr Ymateb | Cyfanswm yr Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1 | £0 | | 17.65% | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | £1-£10 | 5.88% | 1 |
| 3 | £11-20 | 29.41% | 5 |
| 4 | £21-£40 | 23.53% | 4 |
| 5 | £41-£60 | 11.76% | 2 |
| 6 | £61-80 | 11.76% | 2 |
| 7 | £80+ | 0.00% | 0 |
| | | wedi ateb | 17 |
| | | wedi osgoi | 28 |

| Rydym hefyd yn ymgynghori ar y dewis i drwyddedu defnydd y cyhoedd ar wenwynau ar Restr Gwenwynau Rhan 1. Un dewis felly fyddai cynnig trwydded amlbwrpas y gellir ei defnyddio i brynu Cemegolion Atodiad 1 a gwenwynau Rhan 1 (gweler yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rheolau Gwenwynau 1982, Rhestr Gwenwynau 1982 a’r diwygiadau cysylltiedig). A ydych yn prynu gwenwynau Rhan 1 hefyd? | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Ydw | 68.42% | 13 |
| 2 | Na | 31.58% | 6 |
| | | wedi ateb | 19 |
| | | wedi osgoi | 26 |

## Adran 3: cwestiynau i bob busnes

| Sut fyddech chi’n disgrifio eich busnes? | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Cynhyrchydd | 4.35% | 1 |
| 2 | Lluniwr | 4.35% | 1 |
| 3 | Cyfanwerthwr | 17.39% | 4 |
| 4 | Adwerthwr | 17.39% | 4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Dosbarthydd Ar-lein | | 4.35% | 1 |
| 6 | Arall | | 52.17% | 12 |
| | | | wedi ateb | 23 |
| | | | wedi osgoi | 22 |

| Os ydych yn defnyddio’r cemegolion yma yn broffesiynol, a fyddech yn medru darparu un o’r dogfennau a restrir uchod yn rhwydd? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Byddwn | | 77.78% | 7 |
| 2 | Na | | 22.22% | 2 |
| 3 | Ddim yn gwybod | | 0.00% | 0 |
| (atebion nad oedd yn berthnasol wedi eu tynnu) | | | wedi ateb | 9 |
| | | | wedi osgoi | 25 |

| I ba raddau yr ydych yn cytuno neu’n anghytuno bod y cyfarwyddiadau ar roi adroddiad am drafodion amheus a ddisgrifir uchod yn hawdd eu deall? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Cytuno’n gryf | | 28.57% | 6 |
| 2 | Tueddu i gytuno | | 38.10% | 8 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn | | 14.29% | 3 |
| 4 | Tueddu i anghytuno | | 9.52% | 2 |
| 5 | Anghytuno’n gryf | | 4.76% | 1 |
| 6 | Ddim yn gwybod | | 4.76% | 1 |
| | | | wedi | 21 |
| | | | wedi | 24 |

| I ba raddau yr ydych yn cytuno neu’n anghytuno y byddai’r cyfarwyddyd hwn yn hawdd i’w weithredu? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Cytuno’n gryf | | 30.00% | 6 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Tueddu i gytuno | | 25.00% | 5 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn | | 5.00% | 1 |
| 4 | Tueddu i anghytuno | | 20.00% | 4 |
| 5 | Anghytuno’n gryf | | 15.00% | 3 |
| 6 | Ddim yn gwybod | | 5.00% | 1 |
| | | | wedi ateb | 22 |
| | | | wedi osgoi | 23 |

| A fyddai’r gofynion rhoi adroddiad am drafodion amheus yn eich atal rhag gwerthu sylweddau Atodiad 1 neu 2? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Byddent | | 11.76% | 2 |
| 2 | Na | | 70.59% | 12 |
| 3 | Ddim yn gwybod | | 17.65% | 3 |
| | | | wedi | 17 |
| | | | wedi | 28 |

## Adran 4: cwestiynau i adwerthwyr atodiad 1 (uwchlaw’r crynodiad) yn unig

| A ydych yn cytuno neu’n anghytuno â’r dybiaeth na fydd costau sylweddol i adwerthwyr ar-lein ddiweddaru eu ffurflenni cais ar-lein? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Cytuno | | 12.50% | 1 |
| 2 | Ddim yn gwybod | | 62.50% | 5 |
| 3 | Anghytuno | | 25.00% | 2 |
| | | | wedi ateb | 9 |
| | | | wedi osgoi | 36 |

| I ba raddau yr ydych yn cytuno neu’n anghytuno â’r dybiaeth na fydd gwasanaeth dosbarthu preifat yn tynnu cost sylweddol wrth orfod gwirio am y dogfennau angenrheidiol a ddisgrifir uchod? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cytuno | | 11.11% | 1 |
| 2 | Ddim yn gwybod | | 22.22% | 2 |
| 3 | Anghytuno | | 66.67% | 6 |
| | | | wedi | 9 |
| | | | wedi | 36 |

| A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai costau ychwanegu un llinell o destun ar label yn ddibwys os rhoddir digon o rybudd i fusnesau? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Cytuno | | 60.00% | 6 |
| 2 | Ddim yn gwybod | | 20.00% | 2 |
| 3 | Anghytuno | | 20.00% | 2 |
| | | | wedi | 10 |
| | | | wedi | 35 |

| A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd yr angen i ymgeisio am drwydded yn atal defnyddwyr cartref rhag prynu eich cynnyrch/cynhyrchion? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Cytuno | | 60.00% | 6 |
| 2 | Anghytuno | | 0.00% | 0 |
| 3 | Ddim yn gwybod | | 40.00% | 4 |
| | | | wedi | 11 |
| | | | wedi | 34 |

| A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r angen i ddefnyddwyr cartref gael trwydded yn eich atal chi rhag gwerthu i'r cyhoedd? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Cytuno | | 0.00% | 0 |
| 2 | Anghytuno | | 71.43% | 5 |
| 3 | Ddim yn gwybod | | 28.57% | 2 |
| | | | wedi | 10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | wedi | 35 |

| Rydym hefyd yn ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rheolau Gwenwynau 1982, Rhestr Gwenwynau 1982 a'r diwygiadau cysylltiedig. A ydych yn gwerthu gwenwynau Rhan 1 hefyd? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| 1 | Ydw | | 41.67% | 5 |
| 2 | Na | | 58.33% | 7 |
| | | | wedi | 12 |
| | | | wedi | 33 |

## Adran 5: cwestiynau i bob ymatebwr

| A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd dewisiadau a nodir isod yn sicrhau y bydd yr amcanion polisi yn cael eu cyflawni: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| Dewis 1: Gwneud dim | 26.5% (9) | 20.6% (7) | 44.1% (15) | 5.9% (2) | 33 |
| Dewis 2: Gwahardd gwerthu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad i'r cyhoedd | 2.9% (1) | 8.8% (3) | 82.4% (28) | 2.9% (1) | 33 |
| Dewis 3: Gadael i'r cyhoedd brynu, defnyddio a meddu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad os bydd ganddynt drwydded ddilys | 48.6% (17) | 14.3% (5) | 31.4% (11) | 2.9% (1) | 34 |
| Dewis 4 a): Gadael i'r cyhoedd brynu, defnyddio a meddu Grŵp A o'r cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad gyda thrwydded, a Grŵp B trwy roi manylion personol ar gofrestr wrth brynu. Uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad i Grŵp B, byddai gwerthu i'r cyhoedd yn cael ei wahardd. | 18.8% (6) | 21.9% (7) | 50.0% (16) | 6.3% (2) | 31 |
| Dewis 4 b): Yr un fath â Dewis 4 a), ond bydd prynu, defnyddio a meddu cemegolion Grŵp B uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad yn cael eu trwyddedu yn hytrach na'u gwahardd. | 50.0% (16) | 18.8% (6) | 25.0% (8) | 3.1% (1) | 31 |
| Arall | 28.6% (2) | 14.3% (1) | 0.0% (0) | 42.9% (3) | 6 |
| | | | | wedi ateb | 34 |
| | | | | wedi osgoi | 11 |

| Gosodwch y dewisiadau yn y drefn orau gennych: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dewis cyntaf** | **Ail ddewis** | **Trydydd dewis** | **Pedwerydd dewis** | **Pumed dewis** | **Cyfanswm yr Ymateb** |
| Dewis 1 | 50.0% (16) | 6.3% (2) | 3.1% (1) | 15.6% (5) | 21.9% (7) | 31 |
| Dewis 2 | 6.9% (2) | 6.9% (2) | 6.9% (2) | 20.7% (6) | 55.2% (16) | 28 |
| Dewis 3 | 25.0% (8) | 28.1% (9) | 34.4% (11) | 9.4% (3) | 0.0% (0) | 31 |
| Dewis 4a | 6.5% (2) | 25.8% (8) | 22.6% (7) | 29.0% (9) | 12.9% (4) | 30 |
| Dewis 4b | 19.4% (6) | 29.0% (9) | 25.8% (8) | 19.4% (6) | 3.2% (1) | 30 |
| | | | | | wedi ateb | 34 |
| | | | | | wedi osgoi | 11 |

## Atodiad B – Rhestr o'r sefydliadau a dargedwyd

Association of Aquarists
Association of British Pharmaceutical Industry
Association of Convenience Stores
Association of First Aiders
Agricultural Industries Confederation
Association of Plumbing and Heating Contractors
British Adhesives and Sealants Association
British Aerosol Manufacturer's Association
British Association for Chemical Specialties
British Association of Beauty Therapy and Cosmetology
British Coatings Federation
British Dental Trade Association
British Firework Association
British Healthcare Traders Association
British Independent Retailers Association
British Plastics Federation
British Pyrotechnic Association
British Radio Car Association
British Retail Consortium
British Rubber and Polyurethane Products Association
British Rubber Manufacturer's Association
British Shooting Sports Council
British Spa and Pool Federation
British Tropical Fish Club
Builders Merchants Federation
Carwash Association
Chemical Business Association
Chemical Industries Association
Cosmetics, Toiletry and Perfume Association
Confederation of British Industries
Confederation of Paper Industries
Explosives Industry Group
Federation of Small Businesses
Garden Centre Association
General Pharmaceutical Council
Guild of Professional Beauty Therapists
Health Food Manufacturer's Association
Institute of Swimming Pool Engineers
Model Power Boat Association
National Association of Drainage Contractors
National Association of Street Clubs
National Hairdressers Federation
National Pharmacy Association
National Street Rod Association
Packaging and Films Association
Painting and Decorating Association
Performance Textiles Association
Pharmacy Voice
Pool and Water Treatment Advisory Group
Ornamental Aquatic Fish Trade Association
Royal Society of Chemistry
Royal Pharmaceutical Society
Sport and Recreation Alliance

Surface Engineering Association
Swimming Pool and Allied Trades Association
The Company Chemist
The Hairdressing and Beauty Suppliers Association
Tropical Fish Club
UK Cleaning Products Industry
UK Clinical Pharmacy Association
UK Fashion and Textiles Association
UK Pyrotechnics Society
UK Radio Control Council

[Nid yw ymatebwyr unigol a chwmnïau preifat wedi eu cynnwys yn y rhestr uchod]